**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# PANEL GWEITHREDOL
# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**6ed Chwefror 2012**

## PEIRIANT YSGOL AC ESGYNLAWR

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio argymhelliad gan yr Aelodau ar leoliad strategol tri Pheiriant Ysgol ac Esgynlawr y Gwasanaeth yn y dyfodol.

## Cyflwyniad

2 Peiriannau arbenigol yw'r rhain sydd, dan yr amgylchiadau priodol, yn darparu ffordd i mewn ac allan i ddiffoddwyr tân ar lefelau uchaf adeiladau, esgynlawr diogel ar gyfer gweithio'n uchel, llawer o ddŵr trwy fonitor ar gyfer diffodd tân a gallu cyfyngedig ar gyfer achub.

## Y Cefndir

3 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 18fed Hydref 2010, penderfynodd yr Aelodau fabwysiadu safon cyrraedd 30 munud ar gyfer y Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr ledled y gogledd.

4 Mae mabwysiadu amser cyrraedd 30 munud wedi lleihau angen y Gwasanaeth o 4 i 3 pheiriant, tra'n parhau i gyflawni dyletswydd yr Awdurdod i gwrdd ag anghenion gweithredol cyfredol y Gwasanaeth.

## Y Sefyllfa ar hyn o bryd

5 Ar hyn o bryd, mae gan y Gwasanaeth bedwar Peiriant o'r fath, sef ym Mangor, Llandudno, y Rhyl a Wrecsam. Bydd y Peiriant sydd yng ngorsaf dân Wrecsam yn cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol ar $31^{ain}$ Mawrth eleni, ac yn cael ei dynnu o ddyletswydd weithredol.

6 Mae'r lleoliadau presennol yn gofalu am ardal ddaearyddol eang ar draws y risgiau perthnasol yn Ngogledd Cymru.

7 Mae ystyried lleoliadau posib yn y dyfodol wedi dangos y byddai lleoli un o'r peiriannau draw o'r pedwar lleoliad presennol yn broblemus ac yn golygu gwariant ychwanegol, naill ai oherwydd newid strwythurol i wneud lle i beiriant a/neu fwy o gostau hyfforddi staff i ddarparu gweithredwyr newydd.

8 O ran mater lleoliad y 3 pheiriant, efallai y byddai'r Aelodau'n dymuno ystyried yr wybodaeth ganlynol:-

8.1 Tabl 1 yn Atodiad 1.

8.2 Mae peiriannau arbenigol wedi eu lleoli i ymorol am y risg perthnasol yn y Gwasanaeth drwyddo draw, ac nid mewn perthynas â risg penodol yr orsaf honno.

8.3 Mae'r peiriant sydd ym Mangos yn gofalu am sefydliadau addysgol Bangor, pellafoedd gorllewinol y gogledd ac Ynys Môn, sy'n cynnwys porthladd Caergybi a'r orsaf niwclear yn Wylfa. Gorsaf criw dydd 10 awr sydd ym Mangor.

8.4 Mae'r peiriant sydd yn Llandudno yn gofalu am sefydliadau twristaidd y dref. Mae gan sir Conwy y nifer uchaf o dderbyniadau rhagnodedig (*Pre-determined attendance (PDAs)*), gan gynnwys 437 o safleoedd yn Llandudno gyda pheiriant ar y PDA. Gorsaf criw dydd 10 awr sydd yn Llandudno.

8.5 Mae'r peiriant sydd yn y Rhyl yn gofalu am rai o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn y gogledd, a nifer uchel o dai amlfeddiannaeth. Mae 343 o safleoedd yn y Rhyl gyda pheiriant ar y PDA. Gorsaf shifft 24 awr sydd yn y Rhyl.

8.6 Mae'r peiriant sydd yn Wrecsam sy'n cael ei ddefnyddio fwy na'r un yng Ngogledd Cymru, ac mae'r ardal 30 munud yn cynnwys y boblogaeth fwyaf yn rhanbarth ddwyreiniol y Gwasanaeth. Gorsaf shifft 24 awr sydd Wrecsam.

9 Ynghlwm yn Atodiad 2, ceir sleidiau a gyflwynwyd i'r Awdurdod a'r Panel Gweithredol yn 2010 fel rhan o sesiynau briffio estynedig a ddarparwyd i'r Aelodau. Atodiad 3 yw'r adroddiad eglurhaol i'r Awdurdod am y cyflwyniadau, a llythyr gan Gyngor Tref Llandudno.

## Argymhelliad

10 Gofynnir i'r Aelodau ystyried lleoliad priodol y 3 pheiriant yn y dyfodol, a gwneud argymhelliad i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth.

**Atodiad A**

**Tabl 1 – Gwybodaeth am weithrediad y Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr**
**1ef Ebrill 2010 hyd at 30ain Medi 2011 (18 mis)**

| | **Bangor** | **Llandudno** | **Y Rhyl** | **Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr anfoniadau allan | 22 | 35 | 55 | 79 |
| Cyfanswm y digwyddiadau | 20 | 35 | 55 | 76 |
| Cyfanswm yr ymarferion | 2 | 0 | 0 | 3 |
| Anfon peiriant yn ôl PDA | 4 | 21 | 39 | 47 |
| Anfon peiriant ar gais | 18 | 14 | 16 | 32 |
| Peiriant heb fynd allan (criw) | 0 | 0 | 8 | 3 |
| Cyfanswm yn bresennol | 21 | 25 | 37 | 39 |
| Cyfanswm a ddefnyddiwyd | 19 | 10 | 12 | 27 |
| Defnyddio i achub pobl | 0 | 1 | 1 | 2 |
| Defnyddio i achub anifeiliaid | 2 | 5 | 2 | 1 |
| Defnyddio i ddiffodd tanau | 14 | 2 | 4 | 19 |
| Defnyddio i ddiogelu | 3 | 2 | 5 | 5 |

**Atodiad 3**

**EITEM AR YR AGENDA: 7**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Hydref 2010**

**Peiriannau ac Ysgol ag Esgynlawr (ALPs)**

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

**Pwrpas yr Adroddiad**

1 Pwrpas yr adroddiad yw edrych am benderfyniad gan yr Awdurdod ar ba un ai i gynnal y safon presenoldeb o 20 munud ar gyfer peiriannau ag ysgol ac esgynlawr neu godi'r safon i 30 munud yn unol ag argymhelliad y Panel Gweithredol ar 10fed o Fai 2010.

**Cefndir**

2 Mae gan y Gwasanaeth bedwar peiriant ag ysgol ac esgynlawr ar hyn o bryd sydd wedi eu lleoli ym Mangor, Llandudno, Y Rhyl a Wrecsam er mwyn cwrdd â'r safon presenoldeb o 20 munud a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod er mwyn cynnwys yr ardaloedd risg perthnasol yma.

3 Bydd y peiriant ag ysgol ac esgynlawr sydd yng ngorsaf dân Wrecsam yn cyrraedd diwedd ei wasanaeth yn 2012. Bydd pwmp newydd yn costio oddeutu £600,000 mewn cyfalaf gydag effaith refeniw parhaus ar y gyllideb o £50,000 y flwyddyn.

4 Yng nghyfarfod Panel Gweithredol yr Awdurdod ar 10fed Mai 2010, penderfynwyd yn unfrydol argymell i'r Awdurdod newid y safon presenoldeb i 30 munud ac fel canlyniad i beidio â phrynu peiriant ag ysgol ac esgynlawr newydd.

## Gwybodaeth

5 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 21ain Mehefin 2010, derbyniodd yr Aelodau adroddiad ar y mater hwn ac o ganlyniad, penderfynwyd derbyn amlinelliad pellach yn gynnar ym mis Medi.

6 Digwyddodd yr amlinelliad hwn ar 3ydd Medi 2010. Roedd y briff yn agored i'r holl Aelodau ac yn cynnwys gwybodaeth helaeth ar y defnydd, cymhwysiad a lleoliad y peiriannau ag ysgol ac esgynlawr. Roedd y wybodaeth yma wedi cael ei roi i'r Panel Gweithredol mewn nifer o gyfarfodydd blaenorol.

7 Roedd Aelodau wedi gallu gofyn ystod o gwestiynau ar y mater ac fe'u hanogwyd gan y Prif Swyddog Tân i gysylltu ag ef os oeddynt angen rhagor o wybodaeth. Nid oedd unrhyw geisiadau dilynol gan Aelodau.

8 Mae'r mater hwn wedi derbyn ymgynghoriad cyhoeddus o'r blaen, fel rhan o adolygiad yr Awdurdod ar beiriannau arbennig yn 2003/04 i gychwyn. Roedd yr adolygiad yn un o amcanion yr Awdurdod a gyhoeddwyd yn ei Gynllun Rheoli Risg Integredig cyntaf o dan y pennawd "Atal, Amddiffyn ac Ymateb". Aeth y mater hwn o drwy broses ymgynghori lawn unwaith eto yn 2006 fel amcan penodol trydydd cynllun gweithredu'r Cynllun Rheoli Risg Integredig o dan y pennawd "Cynnal Momentwm".

9 Ynghlwm fel Atodiad 1 mae copi o lythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Llandudno ar 30ain Medi 2010. Mae cynnwys y llythyr yn hunanesboniadol ac wedi'i atodi er gwybodaeth i Aelodau.

## Argymhellion

10 Wedi derbyn amlinelliad a gwybodaeth ar y mater hwn, fod yr Aelodau yn nodi argymhelliad y Panel Gweithredol ac yn penderfynu un ai:

a) cynnal y safon 20 munud bresennol, neu
b) mabwysiadu safon 30 munud i'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr.